



**CREU
ECONOMI
OFALGAR:
GALWAD I
WEITHREDU**



CRYNODEB GWEITHREDOL



Cydnabyddiaethau

Daw'r crynodeb gweithredol hwn o *Creating a caring economy: a call to action*, sef adroddiad terfynol y Comisiwn ar Economi Gyfartal rhwng y Rhywiau. Mae ar gael yn www.wbg.org.uk/commission

Gwnaethpwyd y Comisiwn ar Economi Gyfartal rhwng y Rhywiau yn bosibl trwy gefnogaeth y Friends Provident Foundation. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth.

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

©2020 UK Women's Budget Group

www.wbg.org.uk



**Friends
Provident
Foundation**

Crynodeb gweithredol

Mae'r amser wedi dod i wireddu'r syniad o economi ofalgar. Wrth i'r DU a'i gwledydd cyfansoddol wynebu Brexit a pharhau i wynebu pandemig Covid-19, yma rydym yn cyflwyno dewis arall beiddgar, arloesol, trawsnewidiol ac angenrheidiol i'n model economaidd cyfredol. Er ein bod wedi aros yn hir am y syniadau y tu ôl i economi ofalgar, maent bellach yn hanfodol, gan dynnu ar y gwersi a ddysgwyd o argyfwng Covid-19 ac adlewyrchu'r hyn y mae pobl ledled y DU eisiau ei weld: economi sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf.


Mae economi ofalgar yn economi sy'n blaenoriaethu gofalu am ein gilydd a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo. Mae'n economi ddeinamig ac arloesol lle mae bodau dynol, a'n planed a rennir gennym, yn ffynnu. Mewn economi ofalgar, mae pawb yn rhoi ac yn derbyn gofal ar sail eu galluoedd a'u hanghenion. Yn wir, mae angen gofal ar bob un ohonom ar wahanol adegau yn ein bywydau. Mae economi ofalgar yn sicrhau bod gan bawb amser i ofalu, yn ogystal ag amser yn rhydd o ofalu. Mae economi ofalgar yn parchu rolau lluosog pobl fel gofalgwyr, aelodau o'r gymuned, partneriaid, rhieni ac ati, ochr yn ochr â'u rolau fel gweithwyr cyflogedig. Mae economi ofalgar yn deall yn well gwahanol rannau'r profiad dynol.

Mae gwasanaethau gofal o ansawdd da, fel gofal cymdeithasol i oedolion, gofal iechyd a gofal plant yn hanfodol ar gyfer economi dda. Ond mae economi ofalgar yn ymestyn y tu hwnt i wasanaethau gofal: mae'n cynnwys gofalu am gyflog ac amodau gweithwyr, cydweithredu i ddod â gwahaniaethu, amddifadedd a thlodi i ben a dileu trais a chamdrin, a gofalu am y blaned rydym yn byw gyda'n gilydd arni. Mae economi ofalgar yn golygu gweithredu gyda'n gilydd i wella llesiant yn hytrach na chynyddu twf economaidd i'r eithaf.

Mae economi ofalgar yn golygu gweithredu gyda'n gilydd er mwyn gwella llesiant yn hytrach na chynyddu twf economaidd i'r eithaf

Mae economi ofalgar yn sicrhau cyflawniad cydraddoldeb rhywiol, cynaliadwyedd a llesiant (Ffigur 1) ar yr un pryd. Er y gellir cyflawni'r tri amcan yma ar wahân, i ryw raddau, mae economi ofalgar yn caniatáu iddynt gael eu cyflawni gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae buddsoddi mewn gwasanaethau gofal â thâl yn gwella llesiant trwy sicrhau bod anghenion gofal pobl yn cael eu diwallu; mae'n gwella cydraddoldeb rhywiol oherwydd ei fod yn codi'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol ac yn lleihau'r bwch cyflogaeth rhwng y rhywiau (sy'n arbennig o hanfodol wrth i ni geisio gwrthsefyll yr argyfwng swyddi sydd ar ddod), ac mae'n gynaliadwy oherwydd bod swyddi gofal yn swyddi gwyrdd. Mae gofal yn ddiwydiant cymharol wyrdd: mae buddsoddi mewn gofal dair gwaith yn llai llygrol fesul swydd a grëir yn gyffredinol na'r buddsoddiad cyfatebol yn y diwydiant adeiladu.¹

¹ Cyfrifiadau WBG yn defnyddio data Eurostat ar gyfrifon amgylcheddol o 2015. Am ragor o wybodaeth am fuddsoddi yn y sector gofal, gweler: Himmelweit, S. and J. De Henau (2020). A care-led recovery from coronavirus. UK Women's Budget Group (<https://bit.ly/3jZYqvp>)



Ffigur 1: Mae economi ofalgar yn cwmpasu cydraddoldeb rhywiol, llesiant a chynaliadwyedd

Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi cipolwg i ni ar sut fyddai economi ofalgar yn edrych, yn y ffyrdd y gwnaeth grwpiau cymdogaeth dyfu i helpu pobl oedd yn arbennig o agored i'r feirws, ac yn y ffordd y gostyngodd lefelau llygredd aer yn sylweddol. Ond mae hefyd wedi dangos i ni gymaint o ffyrdd y mae gennym economi ddi-hid, fel diffyg cyfarpar diogelu personol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y diffyg - am fisoedd lawer - cefnogaeth ariannol ddigonol i'r rhai y gofynnir iddynt dreulio cyfnod o gwarantîn, y cyflog isel ac amodau gwael i gynifer o weithwyr allweddol, llawer ohonynt yn dod o gymunedau mudol a BAME, a'r ffyrdd y mae disgwyl i famau ymdopi gyda'r diffyg mewn gofal plant, gydag effeithiau niweidiol ar eu llesiant eu hunain.

Ond mae'r symptomau hyn o economi ddi-hid yn cael eu hachosi gan ddiffygion dwfn yn ein model economaidd cyfredol, fel anghydraddoldeb croestoriadol dwfn, esgeulustod o lesiant pobl a'r blaned, a ffocws llethol ar fuddiannau ariannol tymor byr, yn lle buddsoddiad hirdymor. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol ail-alinio blaenoriaethau. Adlewyrchir hyn ym marn y cyhoedd: mae cefnogaeth gref gan y cyhoedd i adeiladu economi ofalgar (Blwch 1).

Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol ail-alinio blaenoriaethau

Blwch 1: Cefnogaeth gan y cyhoedd i adeiladu economi ofalgar²

Mae **cefnogaeth gref o blith y cyhoedd** i adeiladu economi ofalgar. Dangoswyd y canlynol gan arolwg barn a gynhaliwyd gan y Grŵp Cyllideb Menywod cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn:

- ▶ Dywed 68% o bobl y DU y dylid defnyddio **llesiant** i fesur llwyddiant polisi economaidd
- ▶ Mae 79% yn cytuno bod angen **gwell cydbwysedd** rhwng gwaith â thâl, cyfrifoldebau gofalu, ac amser rhydd
- ▶ Mae dros hanner (56%) yn credu bod **buddsoddi** mewn gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg yn **bwysicach** i ddyfodol yr economi na buddsoddi mewn trafndiaeth a thechnoleg
- ▶ Mae tri o bob pedwar yn cytuno bod **cydraddoldeb economaidd rhwng menywod a dynion** yn arwydd o gymdeithas dda
- ▶ Mae 82% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai **gofal cymdeithasol** fod ar gael i bawb ar sail eu **hanghenion** gofal, nid eu cyfoeth
- ▶ Mae dau o bob tri yn cytuno y dylai'r Llywodraeth **annog a chefnogi dynion yn ariannol i ddarparu mwy o ofal**

Mae ymatebion y llywodraeth i'r pandemig hefyd wedi dangos eu gallu a'u parodrwydd i fenthyca i ariannu gwariant cyfredol ar wasanaethau cyhoeddus, nawdd cymdeithasol a chymorthdaliadau newydd, fel y cynllun ffyrlo, i geisio achub bywydau, swyddi a bywoliaethau. Rhaid cynnal a chyfeirio'r polisi hwn at adeiladu economi ofalgar - yn enwedig tra bod cyfraddau llog mor isel.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu **wyth cam i greu economi ofalgar**, yn seiliedig ar gydraddoldeb rhywiol, llesiant a chynaliadwyedd.

Mae'r wyth cam hyn, ynghyd â rhai argymhellion allweddol, fel a ganlyn. Mae'r rhain yn berthnasol i lywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol, a busnesau o bob math, fel sy'n briodol.

² Cynhaliwyd yr arolwg barn gan Survation. Cynhaliwyd 2052 o gyfweiliadau yn y DU. Digwyddodd gwaith maes rhwng 3-10 Medi 2020. Am ragor o wybodaeth gweler <https://wbg.org.uk/category/media/press-releases/>

1 **Ail-edrych ar yr hyn a olygwn wrth 'yr economi'**, fel bod natur ganolog gofal i'r economi yn cael ei gydnabod. Mae hyn yn golygu bod cyfraniad gwaith di-dâl yn ogystal â gwaith â thâl yn cael ei werthfawrogi. Mae'n golygu bod amser yn cael ei ystyried yn bwysig yn ogystal ag arian, llesiant yn ogystal ag allbwn, a therfynau ecolegol yn ogystal ag arloesiadau dynol.

- ▶ **Cydnabod gwerth** economaidd **gwaith di-dâl**
- ▶ **Monitro cynnydd tuag at greu economi ofalgar** gan ddefnyddio dangosyddion
- ▶ **Ail-edrych ar gostau, effeithlonrwydd a chynhyrchedd** fel bod gwerth cymdeithasol, gwerth amgylcheddol, llesiant ac amser di-dâl yn cael eu hystyried, yn hytrach na gwerth y farchnad yn unig
- ▶ Asesu'r holl bolisiau ar gyfer eu **heffaith** ar allu pobl i dderbyn a darparu **gofal**, yn **gyflogedig** ac yn **ddi-dâl**
- ▶ Sicrhau bod **effaith yr holl bolisiau economaidd ar gydraddoldebau** yn cael ei hasesu'n briodol a bod camau beiddgar yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol

2 **Buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol a ffisegol**, fel bod gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael ag anghenion amrywiol ar sail gyfartal, ac yn caniatáu i bobl ffynnu mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn gwerthfawrogi'r blaned

- ▶ Sicrhau **cyllid cynaliadwy a digonol**, ar **bob lefel** o'r llywodraeth, ar gyfer **gwasanaethau cyhoeddus**, a sicrhau bod **caffael** yn blaenoriaethu cydraddoldeb, llesiant a chynaliadwyedd, uwchlaw'r gost ariannol isaf
- ▶ Sefydlu **Gwasanaeth Gofal Cyffredinol** o ansawdd uchel rhad ac am ddim i ddefnyddwyr, a ariennir yn ganolog gan y pwrs cyhoeddus, sydd â chysylltiad agos â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), a gaiff ei redeg yn lleol mewn ymgynghoriad â defnyddwyr, gyda gweithlu gofal wedi'i hyfforddi'n dda ac yn cael ei dalu'n dda
- ▶ Cyflwyno **darpariaeth gofal plant rhad ac am ddim i bawb**, gan gynnwys addysg plentyndod cynnar a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol, a gynigir trwy gydol y flwyddyn ac yn llawn amser, gyda lefelau cymwysterau a chyflogau staff uwch
- ▶ **Cynyddu buddsoddiad mewn gofal iechyd**, a blaenoriaethu cyllid tuag at ofal cymunedol a sylfaenol, gyda rolau a chynrychiolaeth gryfach a chyflog uwch i nyrsys, cynthwywyr gofal iechyd a staff cymorth eraill
- ▶ Sicrhau bod darparwyr cymorth arbenigol **Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)** yn cael eu hariannu'n ddigonol, a bod ymateb yr heddlu a gweithdrefnau cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â VAWG yn cael eu hailwampio
- ▶ Galluogi awdurdodau lleol i adeiladu digon o **dai cymdeithasol** ynni-effeithlon a **thai gwirioneddol fforddiadwy**, a chryfhau **hawliau ac amddiffyniadau tenantiaid** yn y sector preifat

- ▶ Datblygu **system drafndiaeth gyhoeddus werdd o ansawdd uchel** trwy gynyddu buddsoddiad, yn enwedig mewn systemau bysiau, a hynny wedi'i drefnu mewn ffyrdd sy'n cefnogi pobl sy'n cyfuno gwaith â thâl a gwaith di-dâl
- ▶ Gweithredu **system addysg ofalgar, wedi'i hariannu'n dda**, sy'n blaenoriaethu llesiant ac yn herio stereoteipiau rhyw, a sicrhau bod aflonyddu rhywiol a VAWG yn cael ei ddileu o leoliadau addysgol

3 **Trawsnewid byd gwaith â thâl a byd gwaith di-dâl**, i ddarparu nid yn unig mwy o swyddi, ond swyddi gwell. Byddai'r swyddi hyn yn galluogi menywod a dynion i rannu gwaith â thâl a gwaith di-dâl yn gyfartal. Byddent yn darparu incwm diogel ac incwm byw; bod yn gynaliadwy o ran yr amgylchedd; a bod yn rhydd o stereoteipiau a gwahaniaethu ar sail rhyw

- ▶ Ei gwneud hi'n haws i weithwyr **gyfuno cyfrifoldebau gwaith â thâl a gofalu**, trwy, er enghraifft, gyflwyno **hawliau cyfreithiol cyfartal i absenoldeb gofal â thâl** i holl weithwyr a phobl hunangyflogedig, gan gynnwys rhannu absenoldeb rhiant yn gyfartal ym mlwyddyn gyntaf bywyd plentyn ac absenoldeb i ofalu am bobl oedrannus/anabl a phlant hŷn yn ôl yr angen
- ▶ Dilyn strategaethau arloesol i **leihau'r wythnos waith amser llawn** i oddeutu 30 awr, tra hefyd yn darparu 'gwarantau oriau byw' i sicrhau bod gan weithwyr ddigon o oriau i ddiwallu eu hanghenion o ran incwm
- ▶ Sefydlu **terfyn isaf effeithiol o ran cyflogau** trwy weithredu isafswm cyflog sy'n seiliedig ar gostau byw go iawn
- ▶ Cefnogi **mwy o amrywiaeth ac arloesedd** mewn mathau o berchnogaeth **busnes**, gan gynnwys **cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol**

4 **Buddsoddi mewn system nawdd cymdeithasol ofalgar** sy'n seiliedig ar **urddas ac ymreolaeth**, ac sy'n helpu i sicrhau bod pobl yn cyflawni eu galluoedd ac yn byw bywyd ystyrlon, mewn ac heb fod mewn cyflogaeth a waeth beth yw eu statws ymfudo, trwy gydol eu hoes

- ▶ Sicrhau fod urddas yn cael ei ddiogelu trwy dynnu sancsiynau cosbol ac afresymol yn ôl
- ▶ **Gwella ymreolaeth** trwy alluogi unigolion i sefydlu eu hawl eu hunain i fudd-daliadau
- ▶ **Gwella ac ymestyn budd-daliadau unigol nad ydynt yn destun prawf modd** i ddisodli budd-daliadau prawf modd lle bynnag y bo modd
- ▶ Sicrhau fod budd-daliadau sy'n cwrdd â chostau ychwanegol gofalu am blant ac o fyw gydag anabledau **ddim yn destun prawf modd** ac yn **adlewyrchu lefel wirioneddol** y costau hyn
- ▶ Cynyddu Lwfans Gofalwyr ar gyfer y rhai sy'n darparu **gofal hirdymor di-dâl**
- ▶ Gweithredu **incwm sylfaenol cyffredinol i bobl wedi ymddeol**, h.y. pensiwn anghyfrannol nad yw'n gysylltiedig ag enillion i bawb, sy'n wirioneddol yn cefnogi safon byw gweddus

5 Trawsnewid y systemau treth ledled y DU, i'w gwneud yn fwy blaengar a theg, ac i gynhyrchu mwy o refeniw i fuddsoddi mewn nawdd cymdeithasol a seilwaith cymdeithasol a ffisegol.

- ▶ **Diwygio'r systemau** ar draws y pedair gwlad fel eu bod yn fwy **blaengar** ac yn **codi mwy o refeniw**, gan gynnwys trwy ddileu rhyddhad trethi, lwfansau ac eithriadau sydd wedi'u cynllunio'n wael ac sy'n cynorthwyo osgoi treth ac sydd o fudd i ddynion mwy cefnog yn bennaf
- ▶ **Ailwampio trethiant cyfoeth ac incwm o gyfoeth**, gan gynnwys cydraddoli cyfradd treth ar enillion cyfalaf â threth incwm a diddymu ei lwfans di-dreth ychwanegol, trethu incwm nas enillwyd ar yr un gyfradd ag enillion, trosi treth etifeddiant yn dreth ar roddion oes a diwygio'r dreth gyngor
- ▶ Dod â'r **gyfradd treth gorfforaeth yn ôl i fyny i 24%** a sicrhau na all cwmnïau rhyngwladol ei **osgoi**
- ▶ Ailgyflwyno **trethiant incwm annibynnol dilys** ar gyfer pob partner mewn priodas neu bartneriaeth sifil

6 Canolbwyntio'r fframwaith polisi cyllidol ac ariannol cyffredinol ar adeiladu economi ofalgar


- ▶ Peidio ag ail-fabwysiadu **targedau cyfyngol** ar gyfer **benthyca'r** llywodraeth a lleihau'r diffyg yn y gyllideb
- ▶ **Cydlynu polisi cyllidol ac ariannol**, er mwyn **osgoi cyni** ac yn lle hynny, creu a chynnal economi ofalgar
- ▶ **Cynyddu pwerau benthyca** llywodraethau **datganoledig** a llywodraethau **lleol** fel y gallant fuddsoddi mwy mewn economi ofalgar
- ▶ Mabwysiadu **targedau a dangosyddion** sy'n uniongyrchol gysylltiedig â **llesiant, cydraddoldeb rhywiol a chynaliadwyedd**

7 Gweithio i ddatblygu **system fasnach** sy'n **gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol**

- ▶ **Sicrhau bod pob cytundeb masnach a buddsoddi ôl-Brexit yn gwarantu na fydd unrhyw ddirywiad** mewn safonau amgylcheddol, hawliau dynol a llafur yn y DU a'n partneriaid masnachu.
- ▶ **Sicrhau bod buddion masnach yn cael eu rhannu, trwy asesu effaith** cytundebau masnach a buddsoddi ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a chymryd camau i gefnogi unrhyw grwpiau a fydd yn cael dioddef effaith negyddol
- ▶ **Eithrio gwasanaethau cyhoeddus** o gytundebau masnach a buddsoddi
- ▶ **Eithrio darpariaethau amddiffyn buddsoddwyr** yn eu ffurf bresennol o bob cytundeb masnach y DU yn y dyfodol

8 Gweithio i drawsnewid y **system economaidd ryngwladol**, fel ei bod yn gefnogol i greu economïau gofalgar ledled y byd

- ▶ Cefnogi Cynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig i drefnu Uwchgynhadledd Ailadeiladu Economaidd Rhyngwladol a Diwygio Systemig, i hyrwyddo **trawsnewid byd-eang** yng ngoleuni'r argyfyngau a ysgogwyd gan bandemig Covid-19
- ▶ Cefnogi sefydlu **corff treth rhynglywodraethol y Cenedloedd Unedig**, gyda chyfranogiad cyfartal gan bob gwlad, i oresgyn rhwystrau mewn ymdrechion i ddileu osgoi talu trethi byd-eang
- ▶ Mynd i'r afael â'r argyfwng dyled mewn gwledydd sy'n datblygu trwy gefnogi'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer **proses ailstrwythuro dyled sofran, y cytunwyd arnynt yn 2015**
- ▶ Sicrhau bod holl **Gymorth Datblygu Tramor** y DU yn cefnogi cyflawni cydraddoldeb rhywiol, llesiant a chynaliadwyedd mewn gwledydd sy'n ei dderbyn



COMMISSION ON A
**GENDER-EQUAL
ECONOMY**

wbg WOMEN'S
BUDGET
GROUP